# CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 12 Rhagfyr 2017 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol; Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc; Brian Jones, Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy; Richard Mainon, Aelod Arweiniol Datblygu Isadeiledd Cymunedol; Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol; a Mark Young, Aelod Arweiniol Safonau Corfforaethol

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Meirick Davies, Arwel Roberts, Glenn Swingler, Rhys Thomas ac Emrys Wynne

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (MM); Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB); Penaethiaid Gwasanaethau: Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (PG), Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol (TW) a'r Swyddog Cyllid/Adran151 (RW); Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro (LJ); Swyddog Comisiynu a Thendro (LD); Rheolwr y Tîm Atal Digartrefedd (CO); Partner Busnes Caffael (MW); Rheolwr Adain Cludiant i Deithwyr (PD) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

## PWYNTIAU SYLW

Bu i'r Arweinydd –

(i) dalu teyrnged i waith staff y Cyngor o sawl adran dros y diwrnodau diwethaf wrth ymateb i dywydd eithafol yn y sir mewn amgylchiadau heriol ac anodd, ac fe gyfleodd ei werthfawrogiad

(ii) gofyn i rai nad oeddent yn aelodau o'r Cabinet ymatal rhag gwneud sylwadau a datganiadau cyffredinol ar eitemau penodol a chanolbwyntio ar ofyn cwestiynau perthnasol ar yr adroddiad penodol a'r argymhellion a oedd dan ystyriaeth.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth
Nicola Stubbins, Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2017.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2017 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.*

## 5 STRATEGAETH DDIGARTREFEDD SIR DDINBYCH 2017-21

Yn absenoldeb y Cynghorydd Bobby Feeley, cyflwynodd y Cynghorydd Tony Thomas yr adroddiad i geisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer Strategaeth Ddigartrefedd 2017-21 cyn ei chyflwyno i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol. Roedd y Strategaeth yn amlinellu cynlluniau a chamau gweithredu'r Tîm Atal Digartrefedd (a'i bartneriaid) i fynd i'r afael â digartrefedd a'i achosion.

Roedd Deddf Tai (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal adolygiad o ddigartrefedd yn eu hardal a datblygu Strategaeth Ddigartrefedd yn seiliedig ar ganfyddiadau'r adolygiad. Roedd y Strategaeth yn manylu ar chwe blaenoriaeth strategol ar gyfer y 4 blynedd nesaf i fynd i'r afael â digartrefedd yn Sir Ddinbych ac, yn y pen draw, i gael gwared ag o'n gyfan gwbl, gydag ymrwymiad cadarn i ymyrryd yn gynnar ac atal. Roedd y Strategaeth wedi'i datblygu ar ôl ymgynghori'n helaeth ac roedd wedi'i hystyried gan Bwyllgor Archwilio Partneriaethau ym mis Tachwedd pan gafodd ei hargymell i'r Cabinet i'w mabwysiadu.

Trafododd y Cabinet yr adroddiad gyda swyddogion ac roeddent yn awyddus i ddeall effaith diwygio'r gyfundrefn les ar ddigartrefedd a sut roedd Sir Ddinbych yn cymharu â gweddill y wlad yn sgil y pwysau cynyddol a'r galw am wasanaethau, ynghyd â mesurau i fynd i'r afael â phroblemau penodol, gan gynnwys yr effaith ar bobl ifanc a theuluoedd.

Wrth ymateb i gwestiynau'r aelodau, bu i'r swyddogion –

- gadarnhau bod effaith fawr wedi bod mewn ardaloedd lle roedd credyd cynhwysol wedi'i gyflwyno ac roedd y Tîm Atal Digartrefedd, ynghyd â phartneriaid, yn gweithio i ddod o hyd i'r grwpiau hynny a effeithiwyd er mwyn lliniaru effaith y newidiadau hyn gymaint â phosib' a darparu cyngor a chymorth yn gynnar
- o ran galw cyffredinol, roedd yn anodd cymharu ffigyrau yn sgil y newidiadau deddfwriaethol diweddar ond roedd llawer o alw'n dal i fod, a oedd yn anodd ei ateb mewn rhai achosion
- ymhelaethu ar ddefnyddio llai o lety gwely a brecwast ar gyfer pobl ifanc a oedd yn dilyn datblygu Llwybr Cadarnhaol Pobl Ifanc a defnyddio llety dros dro mwy addas a gwahanol opsiynau
- pwysleisio pwysigrwydd y sector rhentu preifat i ddiwallu anghenion o ran tai a datblygu cynnig i landlordiaid, gan gynnwys taliadau anogaeth i landlordiaid, i gynyddu nifer y tai a oedd ar gael i unigolion a theuluoedd a oedd yn ddigartref neu dan fygythiad o fod yn ddigartref

- trafod yr heriau wrth gyfathrebu gyda'r 'rhai digartref cudd' a'r rhai nad oeddent yn cydnabod eu statws neu nad oeddent yn dymuno derbyn cymorth y gwasanaeth – roedd llawer yn cael ei wneud drwy sawl rhaglen allgymorth ac ymateb gyda gwasanaethau hyblyg a oedd wedi'u harwain gan anghenion unigolion; roedd offerynnau hunan-help ar y we yn ddull arall ar gyfer y rhai nad oeddent yn dymuno cael cymorth uniongyrchol
- roedd y costau uwch ar ôl cyflwyno Deddf Tai 2014 wedi'u cydnabod gan Lywodraeth Cymru yn y ddarpariaeth o gyllid ar gyfer y flwyddyn nesaf
- prif sail y Strategaeth oedd yr adolygiad o ddigartrefedd a gynhaliwyd yn 2016, a oedd yn gynhwysfawr iawn ac a oedd yn arwain yn allweddol ar yr hyn yr oedd ei angen yn lleol, gan fodloni gofynion cyfreithiol y Ddeddf ar yr un pryd
- ymhelaethu ar y cysylltiadau cryf a oedd rhwng adrannau, yn enwedig Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, a oedd â rheolaeth reoleiddio dros safonau tai a landlordiaid ac a oedd wedi ysgogi gwell ansawdd a disgwyliadau
- cydnabod bod ymyrraeth gynnar yn allweddol ac adrodd ar gamau i ymgysylltu ag unigolion a theuluoedd yn gynnar i atal digartrefedd a fyddai, yn y dyfodol, yn cynnwys presenoldeb ffisegol ar y rhiniog
- roedd cyfeiriad mwy eglur tuag at feini prawf ar gysylltiadau lleol wedi'u cynnwys yn y Strategaeth ar gais Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gellid darparu copïau o Ganllawiau Ailgysylltu Cefnogi Pobl i aelodau pe gofynnid am rai
- cadarnhau bod diffyg taliadau uniongyrchol i landlordiaid wedi arwain at beth amharodrwydd i ddarparu llety, felly roedd angen ystyried taliadau anogaeth i landlordiaid yn rhan o ddatblygiadau'r dyfodol
- yn rhan o gynlluniau i atal digartrefedd ymysg pobl ifanc, byddai gwaith addysgu mewn ysgolion a darpariaethau eraill i bobl ifanc yn cael eu comisiynu i godi ymwybyddiaeth o'r opsiynau tai sydd ar gael a gwirionedd a risgiau digartrefedd ac fe ddarparodd y swyddogion eglurhad o'r llety seibiant mewn argyfyngau a oedd ar gael hefyd
- o ran y dyfodol, cadarnhaodd y swyddogion monitro y byddai adroddiad cynnydd ar weithredu'r strategaeth a chyflawni Cynllun Gweithredu Atal yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Archwilio Partneriaethau ym mis Mai 2018.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol bod yr adroddiad wedi dyfynnu deddfwriaeth a oedd wedi'i dirymu o dan yr adran 'pŵer i wneud y penderfyniad' a'r pŵer cywir oedd Adran 50 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

***PENDERFYNWYD*** *y dylai'r Cabinet gymeradwyo'r Strategaeth Ddigartrefedd cyn ei chyflwyno i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ym mis Ionawr 2018, a'i gweithredu hyd at 2021.*

## 6 CYNLLUN CEFNOGI POBL/ATAL DIGARTREFEDD SIR DDINBYCH 2018/19

Yn absenoldeb y Cynghorydd Bobby Feeley, cyflwynodd y Cynghorydd Tony Thomas yr adroddiad i geisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer Cynllun Cefnogi Pobl/Atal Digartrefedd Sir Ddinbych 2018/19 cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol.

Roedd y Cynllun yn amlinellu cynlluniau a gweithredoedd y Tîm Atal Digartrefedd (a'i bartneriaid) wrth fynd i'r afael â digartrefedd a'i achosion, gyda phwyslais arbennig ar ddatblygiad gwasanaeth a gomisiynwyd dros y flwyddyn nesaf. Roedd

y Cynllun hefyd yn rhan allweddol o gyflawni rhannau o'r Strategaeth Ddigartrefedd (a drafodwyd o dan yr eitem flaenorol). Roedd pum blaenoriaeth strategol wedi'u nodi ar gyfer y Cynllun, a fyddai hefyd yn cynnwys cynllun gwario llawn ar gyfer y Grant Cefnogi Pobl ar ôl i Lywodraeth Cymru gadarnhau'r gyllideb. Roedd y Cynllun wedi'i ddatblygu ar ôl ymgynghori'n helaeth ac roedd wedi'i hystyried gan Bwyllgor Archwilio Partneriaethau pan gafodd ei argymell i'r Cabinet i'w fabwysiadu.

Wrth ymateb i gwestiynau ynglŷn â lefelau cyllid, dywedodd swyddogion bod elfen Cefnogi Pobl y cyllid wedi'i neilltuo at y dibenion hynny gan Lywodraeth Cymru am y ddwy flynedd nesaf. Roedd cynllun gwario'n cael ei ddatblygu bob blwyddyn ynghyd â chynllun arian at raid ar sail toriadau disgwyliedig yn sgil cael gwybod yn hwyr am y lefel union o gyllid i awdurdodau lleol unigol gan Lywodraeth Cymru. Eglurodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol mai'r darpariaethau deddfwriaethol cywir o dan yr adran 'pŵer i wneud y penderfyniad' yn yr adroddiad oedd Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

***PENDERFYNWYD*** *y dylai'r Cabinet gymeradwyo Cynllun Cefnogi Pobl/Atal Digartrefedd 2018/19, cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ym mis Ionawr 2018 a'i weithredu yn 2018/19.*

## 7 CYTUNDEB Y GRONFA GOFAL INTEGREDIG 2017-2020

Yn absenoldeb y Cynghorydd Bobby Feeley, cyflwynodd y Cynghorydd Tony Thomas yr adroddiad i geisio cymeradwyaeth y Cabinet i'r Cyngor fod yn rhan o gytundeb cyfreithiol rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r chwe awdurdod lleol ar draws Gogledd Cymru mewn perthynas â'r Gronfa Gofal Integredig er mwyn gwneud trefniadau cyllid a llywodraethu rhanbarthol yn ffurfiol.

Roedd y Gronfa Gofal Integredig yn rhan o raglen ehangach o gydweithio ar ofal cymdeithasol ac iechyd a ddaeth yn sgil Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac roedd yn darparu ffrwd gyllid wedi'i rheoleiddio, drwy gyllidebau cyfun, i leihau'r pwysau ar yr ysbyty ac yn y gymuned, gan fod ar gyfer derbyniadau i'r ysbyty a rhyddhau o'r ysbyty yn rhanbarthol yn bennaf. Roedd trefniadau eisoes ar waith a byddai'r cytundeb cyfreithiol yn ffurfioli ac yn rheoleiddio'r gweithgareddau penodol hynny a'r ffrwd gyllid.

Roedd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yn cefnogi'r argymhellion ac yn cefnogi trosglwyddo i drefniadau mwy ffurfiol y gellid eu defnyddio fel achos prawf er mwyn rheoli tensiynau yn gynnar cyn bwrw ymlaen â'r rhaglen gydweithio ehangach rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â rôl y tîm ymateb cyflym, dywedodd y swyddogion bod cymorth yn y cartref bellach yn cael ei reoli o fewn prosiectau eraill, gyda nifer o wasanaethau'n gweithio ochr yn ochr â gwasanaethau gofal yn y cartref, a oedd hefyd yn cynnwys ail-alluogi ac ymyrraeth glinigol.

Roedd y Cabinet yn cefnogi ffurfioli trefniadau a'r gwaith a wnaed i ddarparu gwasanaethau'n rhanbarthol ac felly –

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a)* *nodi cynnwys yr adroddiad;*

*(b)* *cymeradwyo bod y Cyngor yn ymrwymo i'r cytundeb cyfreithiol rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru, i reoleiddio'r drefn lywodraethol a'r prosesau ar gyfer y gofynion gwario ac adrodd mewn perthynas â TGCh, ac yn*

*(c)* *cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 1) fel rhan o'u hystyriaethau.*

## 8 GWASANAETH A REOLIR AR GYFER DARPARU GWEITHWYR ASIANTAETH

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad i geisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddechrau caffael cydweithredol gyda Chyngor Sir y Fflint a llunio contract i benodi asiantaeth i gyflenwi staff dros dro i'r Cyngor eu defnyddio.

Daeth cytundeb cyfredol y Cyngor i gyflenwi staff asiantaeth i ben fis Chwefror 2018. Gan fod angen parhaus am staff asiantaeth ac o ystyried y gofynion deddfwriaethol, cynigiwyd y dylid cynnal proses dendro gystadleuol gan ddefnyddio'r fframwaith MSTAR2 (Gwasanaethau a Reolir ar gyfer Staff Asiantaeth Dros Dro). Byddai'r contract yn para tair blynedd, gyda dewis i roi estyniad o flwyddyn arall.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, ceisiodd y Cabinet eglurder ynglŷn ag elfen gwerth am arian y contract arfaethedig, manylion am y contract, ac a oedd dulliau darpariaeth eraill wedi'u hystyried. Nododd yr aelodau bod arbedion o dros £200,000 y flwyddyn wedi'u gwneud gan ddefnyddio'r fframwaith presennol ac er y cydnabyddid y byddai'r contract newydd arfaethedig hefyd yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y Cyngor yn ariannol, roedd pryder ynglŷn â'r diffyg manylder a ddarparwyd yn yr adroddiad er mwyn rhoi'r sicrwydd ar werth am arian, yn enwedig o gofio y byddai gwariant arfaethedig dros £4m dros bedair blynedd o dan y contract newydd, a chredai'r Cabinet y byddai'r mater yn elwa o'i archwilio ymhellach. Trafodwyd yr amserlenni ar gyfer y broses gaffael a bod y cytundeb cyfredol yn dod i ben ac, o ystyried bod yr amser yn brin, cytunwyd y dylid dechrau'r broses gaffael ond y dylid gofyn i'r pwyllgor archwilio priodol ystyried caffael cydweithredol ac opsiynau eraill ar sail y gwerth gorau cyn gynted â phosib, gyda'r bwriad o gyflwyno adroddiad yn ôl i'r Cabinet i ystyried a ddylid parhau â'r broses neu dynnu yn ôl i ddewis opsiwn a fyddai o fwy o fantais.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo –*

*(a)* *dechrau'r broses gaffael gan ddefnyddio Fframwaith ESPO MSTAR2 Rhif 653F;*

*(b)* *bod Cyngor Sir Ddinbych yn cydweithio gyda Chyngor Sir y Fflint i arwain a rheoli'r broses gaffael;*

(c) *bod y pwyllgor archwilio priodol yn derbyn adroddiad gan y swyddogion perthnasol ym mis Ionawr 2018 ar y broses gaffael a'r dewisiadau eraill sydd ar gael i'r Cyngor yn seiliedig ar y gwerth gorau, a*

(d) *bod y Cabinet yn derbyn adroddiad i ddyfarnu'r contract i'r cynigiwr sy'n cynnig y budd economaidd mwyaf ym mis Chwefror 2018.*

## 9 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllid y cytunwyd arni. Darparodd y crynodeb canlynol o sefyllfa ariannol y Cyngor –

- rhagwelwyd y byddai cyllidebau gwasanaethau a rhai corfforaethol yn bodloni'r costau drwy ddefnyddio arian corfforaethol at raid
- roedd gwerth £0.902 miliwn o arbedion effeithlonrwydd mewn gwasanaethau eisoes wedi'u cytuno yn rhan o'r gyllideb, gan ddisgwyl y byddent i gyd yn cael eu cyflawni – byddai unrhyw eithriad yn cael ei adrodd wrth y Cabinet
- amlygwyd y risgiau ar hyn o bryd a'r gwahaniaethau mewn perthynas â meysydd gwasanaeth unigol, a
- darparwyd diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, y Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys elfen y Cynllun Corfforaethol)

Gofynnwyd i aelodau'r Cabinet gymeradwyo cyflwyno achos busnes llawn am adeilad ysgol a chyfleusterau newydd ar gyfer Ysgol Gatholig 3-16 oed i Lywodraeth Cymru.

Wrth ymateb i gwestiwn ynglŷn â sut y byddai'r tywydd garw'n effeithio ar gyllid, cyfeiriodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill at y gronfa wrth gefn er mwyn cynnal a chadw yn y gaeaf a sefydlwyd i gynorthwyo â galw mawr pe bai tywydd garw. Nodwyd nad oedd cludiant i'r ysgol wedi bod ar waith mewn sawl ardal, a fyddai'n arbed arian.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

(a) *nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2017/18 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth gyllid y cytunwyd arni;*

(b) *cefnogi cyflwyno achos busnes llawn ar gyfer ysgol Gatholig newydd a chyfleusterau ar gyfer disgyblion 3-16 oed i Lywodraeth Cymru (gweler Atodiad 4).*

## 10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried.

Byddai adroddiad ar y gwasanaeth a reolir i ddarparu gweithwyr asiantaeth yn cael ei drefnu at fis Chwefror 2018.

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol, dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

**11 CONTRACT GWASANAETHAU BYSIAU LLEOL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Brian Jones yr adroddiad cyfrinachol yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyrannu contractau ar gyfer gwasanaethau bysiau lleol yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Gontractau i'r cynigwyr a oedd yn cynnig y fantais ariannol fwyaf.

Roedd swyddogion wedi tendro ystod o opsiynau ac roedd cyflenwyr yn gallu cynnig am gontractau unigol ar gyfer dau neu fwy o gontractau ynghyd. Roedd nifer o ardaloedd heb wasanaethau ond roedd angen cymeradwyaeth gan y Cabinet er mwyn i'r swyddogion allu dyfarnu contractau'n ffurfiol yn unol â'r amserlenni perthnasol. Os nad oedd darparwyr yn gallu derbyn yr hyn a gynigiwyd iddynt ar y cam dyfarnu ffurfiol, byddai newidiadau dilynol yn cael eu rheoli gan ddefnyddio'r arian a oedd ar gael yn y gyllideb.

Yn ystod trafodaeth faith, bu'r swyddogion yn ymateb i gwestiynau ar ystod o faterion gan gynnwys y broses werthuso a sicrhau'r gwerth gorau am arian, profi bod ymchwil digonol wedi'i wneud, tocynnau a phrisiau, a gweithrediad penodol gwasanaethau penodol mewn gwahanol ardaloedd yn y sir ynghyd ag ymarferoldeb llwybrau a gwasanaethau penodol. Trafodwyd rhywfaint ynglŷn â'r potensial am fysiau trydan, a oedd yn dal i gael ei ystyried, a chan fod amser yn brin i wneud cais am gyllid mewn perthynas â hynny, cytunwyd y dylai'r Grŵp Buddsoddi Strategol ystyried y sefyllfa ddiweddaraf ymhellach y prynhawn hwnnw. O ran y cyllid a oedd ar gael, dywedodd y swyddogion bod y cynigion yn seiliedig ar gyllidebau a rhagdybiaethau cyfredol ac fe fynegodd y Cabinet bryder bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi gwybod yn hwyr bod cyllid ar gael a chytunwyd y byddai'r mater yn cael ei drafod gyda nhw'n uniongyrchol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn rhoi caniatâd i Bennaeth y Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol, ac Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Chludiant Cynaliadwy, i ddyfarnu contractau hyd at y terfyn ac o fewn y gyllideb sydd ar gael yn unol â'r cynigion yn yr atodiad i'r adroddiad. Mae'n bosibl y bydd angen gwneud mân newidiadau i fanylion y cynllun yn dilyn ymgysylltu'n ffurfiol gyda'r contractwyr ac wrth i'r sefyllfa ddod yn fwy eglur.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.20 p.m.